

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 13eg Gorffennaf, 2021 am 7.30 yn Neuadd Felinfach

Cynhaliwyd y cyfarfod gyda'r holl weithdrefnau a phrotocolau isod ar waith.

- Gosod bordydd a chynnal pellter cymdeithasol o 2 fetr.
- Gwisgo masg trwy gydol y cyfarfod.
- Darparwyd hylif dwylo ar bob ford
- Cadwyd y sesiwn yn gryno
- Paratowyd Asesiad Risg

PRESENNOL

Cynghorwyr : Gerwyn Owen, (Cadeirydd) Alan Henson) Lynford Thomas Glyn Davies, Johnny Davies, Harry Williams, Daniel Evans, Lyn Williams, Haf Hughes, Owen Llywelyn, Hywel Ifans.

1. YMDDIHEURIADAU

Dim ymddiheuriadau

2. CYFLWYNIAD GAN GYNRYCHIOLWYR GWEITHGOR DYFFRYN AERON

Yn rhan o drafodaethau'r Cyngor ar gefnogi prosiect cymunedol cafwyd cyflwyniad gan Arwyn Davies ac Euros Lewis. Bu Euros yn atgoffa'r aelodau am y sesiwn ymgynghori a gynhaliwyd ym mis Hydref 2019 pan wnaed y penderfyniad gwreiddiol i gefnogi prosiectau a fyddai'n dod â budd i'r ardal. Soniodd Arwyn am waith Gweithgor Dyffryn Aeron a sefydlwyd yn wreiddiol mewn ymateb i gollu Dairy Gold a'r Ffatri gaws. Erbyn hyn mae'r Gweithgor yn ymgynghori ar nifer o brosiectau amgylcheddol gan gynnwys ynni solar a ffyrdd o wynebu'r rheolau newydd arfaethedig ar sut i ddelio â 'slurry' ar ffermydd. Mae angen creu cynllun busnes cynhywsfawr cyn medru symud i'r cam nesaf ac y mae'r grŵp yn chwilio am amryw o ffynonellau ariannol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn.

Diolchwyd I Arwyn ac Euros am y cyflwyniad gan y Cyng. Harry Williams ac ategywd y gwerthfawrogiad ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd.

Penderfynwyd ei roi ar Agenda mis Medi i'w drafod ymhellach.

3. PERSONOL

Dymunwyd gwellhâd buan i Mrs Glenys Owen sydd wedi treulio rhai diwrnodau yn yr ysbyty.

4. DATGELU BUDDION PERSONOL

i. Cynllunio : A210550 - 10 Bro Henllys, Felinfach. Ni ddatgelwyd unrhyw fudd personol.

5. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion 8fed Mehefin. Cynigiwyd gan y Cyng. Hywel Ifans ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas.

6.. MATERION YN CODI

5 iii. Hywel Dda. Heb dderbyn ymateb i'r ail lythyr. Mae'r Clerc wedi ail-anfon y llythyr ar e-bost i Steve Moore y Prif Weithredwr.

10.iii Cyflymder Traffig Cribyn. Dosbarthwyd ymateb Matthew Collins o Gyngor Sir Ceredigion a Ron Barclay o dîm Gan Bwyll yr Heddlu,

Ymateb Gan Bwyll. Cafwyd ymateb cynhywsfawr gan Gan Bwyll yn nodi statws Cribyn yn yr "*higher level of operation*" sydd yn golygu bod fan Gan Bwyll yn ymweld â'r pentre' dair gwaith y mis. Serch hyn, ni gynhaliwyd arolwg cyflymder yn 2019 oherwydd Covid. Cadarnhawyd bod y Clerc wedi cysylltu â Gan Bwyll i ofyn pryd y bwriedir ail-ddechrau cynnal yr arolygon cyflymder.

Ymateb y Cyngor Sir. Nodwyd siom yn ymateb negyddol Matthew Collins, Cynorthwydd Rheoli Traffig a Strategaeth i sylwadau a phryderon y Cyngorwyr. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd yn unfrydol** hala ymateb i'r llythyr hwnnw.

Gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu â Mr. Molloy o Gribyn i roi diweddariad iddo o'r sefyllfa.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith yn ystod y mis gan gynnwys trafodaethau am sefyllfa Gofal Plant yn y Sir, Tai haf a'r Strategaeth Les.

8. CYLLID

- i. Tal y Clerc am fis Mehefin £199.41
- ii. Costau Clerc £55.20 (Stampiau ac inc)

9. GWOBR Y GYMUNED

Yn dilyn trafodaeth, **penderfynwyd** derbyn y syniad o gyflwyno Gwobr y Gymuned yn flynyddol. Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Lynford Thomas. Wrth drafod y daflen ganllawiau a baratowyd, ar gynnig y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson, penderfynwyd yn unfrydol i beidio â chynnig gwobr ariannol, Cyflwynir tarian yn cynnwys logo swyddogol y Cyngor (a welir ar y tsaen).

Yn sgil y drafodaeth am brosiectau cymunedol, penderfynwyd ychwanegu'r canlynol i'w trafod yng nghyfarfod mis Medi:-

- I. Cais Gweithgor Dyffryn Aeron.
- II. Bocsus Blodau.
- III. Adnoddau ar gyfer newydd-ddyfodiaid.

Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc bod yr arian a roir i elusennau neu bwyllgorau cymunedol ar gais ac i bwrpas penodol.

10. CYNLLUNIO

A210550 - 10 Bro Henllys, Felinfach. Penderfynwyd cefnogi'r cais.

12. UNRHYW FATER ARALL

- I. Tynnodd y Cyng. Hywel Ifans sylw at y ffaith bod casgliad sbwriel dydd lau yn Dihewyd yn aml yn cael ei fethu gan arwain at sbwriel yn cael ei adael ar ochr y ffordd am nifer o ddyddiau. **Penderfynwyd** cysylltu â'r Cyngor Sir i dynnu sylw at y mater ac i nodi'r pryderon.
- II. Gofynnodd y Cyng. Alan Henson am sefyllfa Ysgol Cribyn. Nododd y Cyng. Lynford Thomas bod y disgyblion yn symud i Ysgol Cwrtnewydd ond nad oes unrhyw gynlluniau i werthu'r adeilad.
- III. Nododd Y Cyng. Lyn Williams bod angen cymenu'r llwybyr troed rhwng Fron Ganol a Bro Siliin, Cribyn, **Penderfynwyd** cysylltu â'r Cyngor Sir.
- IV. Nododd y Cyng. Johnny Davies bod y gwaith trasho yn Dihewyd wedi bod yn arbennig o dda 'leni. Penderfynwyd ysgrifennu at y Sir i nodi hyn.
- V. Ymgynghoriad Cymwysterau i Glercod. Cafwyd esboniad am yr ymgynghoriad a'l ddibenion ac yn dilyn trafodaeth penderfynwyd ymateb trwy'r Clerc.

12. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 14eg Medi, 2021 yn Neuadd Dihewyd